**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddBusiness@senedd.cymru

9 Awst 2023

**Cynnig Newidiadau i Brotocol Busnes y Gyllideb**

Diolch ichi am anfon copi ataf o'ch llythyr at gadeirydd y Pwyllgor Cyllid dyddiedig 2 Awst, sy'n mynd i'r afael ag amserlen y gyllideb ac yn gwahodd y Pwyllgor Cyllid i ystyried a yw bellach yn dymuno adolygu addasrwydd parhaus protocol y gyllideb a gweithdrefnau cysylltiedig yn dilyn profiad y blynyddoedd diwethaf.

Rwyf wedi bod yn trafod yr angen am newidiadau i'r Protocol gyda chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ers peth amser. Cynigiodd y Pwyllgor Cyllid nifer o newidiadau, yr wyf wedi bod yn falch o gytuno arnynt, ac rwyf wedi cynnig newidiadau pellach a allai, yn fy marn i, leddfu'r anawsterau sy'n codi mewn blynyddoedd pan fydd llywodraeth y DU ond yn cadarnhau setliad ein cyllideb yn hwyr yn nhymor yr hydref.

Rwyf wedi atodi copi o'm llythyr at gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, dyddiedig 20 Gorffennaf, sy'n ymateb i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid ac sy'n cynnwys fy awgrymiadau fy hun.

Ni fyddaf yn ailadrodd y materion a nodir yn y llythyr hwnnw yma, ond rwyf yn teimlo y dylwn fynd i'r afael â'r disgrifiad o ymagwedd Llywodraeth Cymru at lunio amserlenni ein cyllideb.

Nid yw'n wir, fel yr awgrymir yn eich llythyr, fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio 'gwyro' oddi wrth y Protocol. Mae'r Protocol yn cydnabod y byddai amgylchiadau pan na fydd yr amser craffu 'delfrydol' yn bosibl (Paragraff 7). Ar ben hynny, mae paragraff 8 yn cydnabod "bod y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn cydnabod mewn rhai blynyddoedd, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, ei bod yn bosibl na fydd modd caniatáu wyth wythnos, ac y gallai fod angen hyblygrwydd. Fodd bynnag, ni fydd byth llai na phum wythnos ar gyfer craffu ar gynigion amlinellol a manwl y gyllideb". Ers symud i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddigwyddiadau cyllidol y DU yn hwyr yn nhymor yr hydref, mae Gweinidogion Cymru bob amser wedi ceisio darparu'r amser mwyaf posibl sydd ar gael ar gyfer craffu.

Mae'r Protocol hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer blynyddoedd pan nad ydym yn gwybod setliad ein cyllideb tan dymor yr hydref. Mae paragraff 11 yn darparu ‘na fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.’ Mae hyn wedi bod yn gymwys ers symud i ddigwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU yn nhymor yr hydref.  O ganlyniad, nid yw'r Gweinidogion yn gwyro oddi wrth y Protocol ond yn defnyddio ei ddarpariaethau synhwyrol i ymateb i'r amgylchiadau presennol.

Rhaid imi fynd i'r afael ag amheuon y Pwyllgor Cyllid ynghylch ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r Protocol. Nid yw'r awgrym hwn yn adlewyrchu ymdrechion eithriadol Gweinidogion Cymru wrth gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft lai na 4 wythnos ar ôl cael gwybod manylion ein setliad. Nid oedd bwriad erioed i hyn ddod yn beth arferol. Nid yw'n cydnabod ychwaith fy mharodrwydd i drafod y Protocol â chadeirydd y Pwyllgor Cyllid i ddod o hyd i ateb ymarferol i'r ddwy ochr - rwyf wedi dweud fy mod yn falch o fynd ar drywydd yr ymrwymiad hwn cyn cyfnod y Gyllideb nesaf ac sy'n cyd-fynd â chyfnod yr adolygiad o wariant nesaf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i geisio cytundeb ar newidiadau i'r Protocol a fydd yn sicrhau cydbwysedd cymesur rhwng yr amser sydd ar gael ar gyfer paratoi a chyflwyno cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru a chraffu arnynt.

Yn gywir

Rebecca

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**